PWYLLGOR CYNLLUNIO

DYDD IAU, 12 MEDI 2024

PRESENNOL Cynghorydd W.T. Evans (Cadeirydd) (Yn y Siambr)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

S.M. Allen	J.M. Charles	P. Cooper	J.K. Howell
E. Skinner	R. Sparks		

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

T. Davies	M. Donoghue	J.D. James	B.D.J. Phillips
G.B. Thomas	M. Thomas	S. Williams	

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):
R. Griffiths, Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
H. Towns, Uwch Reolwr Datblygu a Gorfodi
H. Rice, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu
R. Davies Ymgynghorydd Cynllunio asiantaeth
T. Boothroyd, Swyddog Rheoli Datblygu ar gyfer Mwynau a Gwastraff
F. Williams, Cynorthwy-ydd Rheoli Datblygu (Mwynau a Gwastraff)
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
D. Hall-Jones, Swyddog Cefnogi Aelodau
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):
G. Morgan, Ymgynghorydd Priffyrdd
R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau

Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP - 10.00 yb - 1.20 yp

Sylwer: Am 11:20am cafodd y Pwyllgor egwyl ac ailymgynullodd am 11:40am. Am 1:00pm tynnwyd sylw'r Pwyllgor at Reol 9 o Weithdrefn y Cyngor – Hyd y Cyfarfod – ac, oherwydd bod y cyfarfod eisoes wedi bod yn mynd rhagddo ers tair awr, penderfynwyd gohirio ystyried y rheolau sefydlog, yn unol â Rheol 23.1 o Weithdrefn y Cyngor, er mwyn galluogi'r Pwyllgor i gwblhau'r gwaith a oedd yn weddill ar yr agenda.

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr M.J.A. Lewis a D.E. Williams.

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

3. PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

PENDERFYNWYD caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-

PL/04400	**Amrywio Amod 2 ar Gais Cynllunio S/36948 (er mwyn caniatáu 5 mlynedd ychwanegol ar gyfer cyflwyno materion a gadwyd yn ôl) ym Mhentref Llesiant a Gwyddor Bywyd Llanelli, Llanelli.**
PL/05349	**Datblygiad preswyl ar dir oddi ar Heol Hathren, Cwm-ann, Llanbedr Pont Steffan, SA48 8JR** Yn dilyn cyflwyniad gan yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd yn argymell cymeradwyo'r cais, yn amodol ar yr amodau, a hynny am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig. Cafwyd sylwadau a wrthwynebai'r cais ac a ailbwysleisiai'r pwyntiau yn adroddiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd, gan gynnwys y pwyntiau isod: • Diogelwch preswylwyr oherwydd cynnydd yn y traffig • Priffyrdd, parcio a mynediad i gerbydau • Tarfu wrth adeiladu'r datblygiad gan gynnwys pryderon yn ymwneud ag iechyd a diogelwch • Effaith ar yr amgylchedd • Dim mynediad uniongyrchol o'r safle datblygu i'r brif ffordd • Nifer y datblygiadau diweddar yn yr ardal gyfagos. Ymatebodd yr Asiant a'r Uwch-swyddog Rheoli Datblygu i'r pwyntiau a godwyd.
PL/07616	**Gweithrediadau peirianneg sy'n cynnwys ffurfio man gwastad i alluogi gwaith datblygu yn y dyfodol ar dir i'r de o Ganolfan Ailgylchu Nant-y-caws, Heol Llanddarog, Nantycaws, Caerfyrddin, SA32 8BG**

4. ADRODDIAD APELIADAU

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r Adroddiad Apeliadau Cynllunio a oedd yn darparu gwybodaeth yn ymwneud ag apeliadau cynllunio a gyflwynwyd ar 3 Medi, 2024.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

5. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 15FED AWST, 2024

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 15 Awst 2024 yn gofnod cywir.

_____	_____
CADEIRYDD	**DYDDIAD**

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf